

Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod	19 Mawrth 2020
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Cynghorydd Tony Thomas (Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau)/Angela Loftus (Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai)
Awdur yr Adroddiad	Sue Lewis (Uwch Swyddog: Cynllunio Strategol a Thai)
Teitl	Fersiwn ddrafft Strategaeth Dai a Digartrefedd – diweddariad ar gynnydd

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r Strategaeth Dai yn cael ei hadolygu a'i diwygio i ffurfio Strategaeth Dai a Digartrefedd newydd ar gyfer y Sir. Pwrpas yr adroddiad yw Craffu a rhoi diweddariad am y cynnydd a wnaed ynghyd â chyfle i gyfrannu at y strategaeth ddrafft.
- 1.2. Mae sicrhau fod pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sydd yn bodloni eu hanghenion yn brif flaenoriaeth gorfforaethol a bydd datblygu fersiwn ddiwygiedig o'r Strategaeth Dai a Digartrefedd yn darparu fframwaith i bob swyddogaeth berthnasol o'r Cyngor er mwyn mynd i'r afael â'r flaenoriaeth yn llwyddiannus. Bydd y Strategaeth Dai a Digartrefedd yn darparu datganiad clir o weledigaeth ac amcanion y Cyngor ar gyfer tai yn y Sir am y 5 mlynedd nesaf.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

- 2.1. Paratowyd yr adroddiad hwn er mwyn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Craffu ar gynnydd wrth lunio'r Strategaeth Dai a Digartrefedd diwygiedig.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Pwyllgor Craffu yn ystyried cynnwys yr adroddiad ac yn rhoi adborth er mwyn llywio datblygiad fersiwn ddrafft y Strategaeth Dai a Digartrefedd.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Cymeradwywyd Strategaeth Dai Sir Ddinbych gan y Cyngor ar 1 Rhagfyr 2015 ac mae'n nodi gweledigaeth a nodau'r Cyngor ar gyfer tai yn y Sir dros gyfnod o bum mlynedd. Yn bwysig mae'n cynorthwyo i gyflawni blaenoriaeth o'r Cynllun Corfforaethol drwy ddarparu fframwaith a chynllun gweithredu i ddarparu (gan weithio gyda phartneriaid) pob swyddogaeth sy'n gysylltiedig â thai y Cyngor (preifat a chyhoeddus). Mae'r Strategaeth hefyd yn cyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Strategaeth gyfredol yn nodi 5 "Thema" er mwyn targedu ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu:

- Mwy o gartrefi i ddiwallu'r angen a'r galw lleol;
- Creu cyflenwad o dai fforddiadwy;
- Sicrhau cartrefi diogel ac iach;
- Cartrefi a chymorth i bobl ddiamddiffyn;
- Hyrwyddo a chefnogi cymunedau.

4.2 Sefydlwyd "grŵp llywio" ar gyfer y Strategaeth Dai gyfredol sydd yn cynnwys Aelodau Arweiniol, Penaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr a Swyddogion gyda chynllun gweithredu clir a mecanweithiau monitro. Mae Cynllun Gweithredu manwl yn cyd-fynd â'r Strategaeth Dai sydd yn blaenoriaethu camau gweithredu a fyddai'n cael yr effaith fwyaf tra'n bod yn realistig ynglŷn â'r hyn y gellir ei gyflwyno gydag adnoddau cyfyngedig. Ers ei fabwysiadu yn 2015, mae'r Strategaeth Dai wedi gwneud cynnydd sylweddol ac mae mwyafrif y camau gweithredu wedi cael eu cwblhau a'u rhoi ar waith mewn arferion gweithredol. Mae **Atodiad A** yn manylu ar y cynnydd ar draws y 5 thema, a dyma rywfaint o'r uchafbwyntiau:

- Darparwyd 302 o dai fforddiadwy ers 2015/16 (ac eithrio 2019/20);
- Wedi dechrau rhaglen datblygu Tai Cyngor (40 o gartrefi newydd yn 2020)
- Llunio Cynllun Cyflawni Tai Gwag;
- Wedi llunio Asesiad o'r Farchnad Dai Leol;
- Wedi llunio Prosbectws Tai er mwyn hyrwyddo safleoedd datblygu posibl;
- Wedi creu Cynlluniau Cymdogaeth trwy ddull datblygu cymunedol;
- Enillodd tenant Tai Sir Ddinbych gwobr Sefydliad Tai Siartredig Cymru am ei gwaith yn ei chymuned;
- Gweithredu Cofrestr Tai Cyffredin (Un Llwybr Mynediad at Dai);

- Gweithredu Partneriaeth Cofrestr Tai Fforddiadwy (Tai Teg);
- Mae disgwyl y bydd darpariaeth tai gofal ychwanegol yn Awel y Dyffryn yn cael ei gwblhau yn gynnar yn 2021 a bydd Cam 2 Llys Awelon yn dechrau eleni;
- Cyfnod prawf Tai yn Gyntaf wedi dechrau – cynnig cefnogaeth ddwys i achosion cymhleth;
- Edrychodd y Gwasanaeth Digartrefedd eto ar eu hymagwedd tuag at dimau Atal, Dyletswydd a Symud Ymlaen;
- Fe luniwyd Strategaeth Ddigartrefedd a chafodd ei drafod ym Mhwyllgor Craffu Partneriaethau ar 11 Gorffennaf 2019.

- 4.3 Fe sefydlwyd y Grŵp Strategol Tai a Digartrefedd yn ddiweddar i ddatblygu ymagwedd fwy cydlynol. Cytunodd y grŵp i gyfuno Strategaeth Dai a Strategaeth Digartrefedd mewn i un Strategaeth Dai a Digartrefedd a bydd yn arwain y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth ddiwygiedig. Mae'n bwysig nodi na fydd yna Strategaeth gwbl newydd; bydd y strategaethau presennol yn cael eu diweddarau. Caiff y Grŵp ei gadeirio ar y cyd gan y Cynghorydd Tony Thomas (Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau) a'r Cynghorydd Bobby Feeley (Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth). Mae Aelodau o'r Grŵp yn cynnwys yr Aelodau Arweiniol hynny â chyfrifoldeb am ardal o dai o fewn eu portffolios, Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a'r Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai. Mae **Atodiad B** yn darparu Cylch Gorchwyl ar gyfer y Grŵp Strategol Tai a Digartrefedd. Manteision yr ymagwedd yma yw ei fod wedi'i gydlynu, gellir datrys problemau ar y cyd, gellir cyfathrebu'n effeithiol a rhagor o gyfleoedd i weithio'n agosach ar draws adrannau.
- 4.4 Y flaenoriaeth nesaf yw datblygu ymagwedd gorfforaethol er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd oherwydd problemau presennol, dim digon o lety dros dro a llety brys addas a gorddibyniaeth ar lety Gwely a Brecwast/Gwesty ac aros am gyfnodau hirach mewn llety brys.
- 4.5 Y cynnig yw diwygio teitl y Strategaeth Dai i 'Strategaeth Dai a Digartrefedd' er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd mynd i'r afael â digartrefedd a sicrhau fod y fframwaith strategol yn mynd i'r afael â digartrefedd. Bydd y Strategaeth yn ddull iddynt gytuno ar flaenoriaethu digartrefedd a monitro cynnydd yn eu herbyn. Bydd

hyn yn galluogi integreiddio gwell a pherchenogaeth gorfforaethol o waith ar ddigartrefedd.

- 4.6 Mae cynnydd ar y Strategaeth hyd yn hyn yn cynnwys adroddiadau i Fwrdd Rhaglen Pobl Ifanc a Thai (27 Tachwedd 2020), cyfarfodydd o'r Grŵp Strategol Tai a Digartrefedd; Gweithdy i Gynghorwyr a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2020 (mae'r prif fanylion wedi'u manylu yn **Atodiad C**). Roedd hyn yn cynnwys Cynghorwyr yn cymryd rhan mewn gweithdai ar y themâu, canlyniadau ac awgrymu ystod o gamau gweithredu newydd posibl.
- 4.7 Cynhaliwyd adolygiad o arfer da a gwybodaeth ystadegol wedi'i ddiweddarau a fydd yn llywio'r Strategaeth ddrafft newydd. Mae cynllun gweithredu newydd a fydd yn cyd-fynd a'r strategaeth yn cael ei lunio hefyd. Mae **Atodiad D** yn cynnwys yr amlinelliad arfaethedig ar gyfer y Strategaeth Dai a Digartrefedd ddrafft. Y cynnig yw cadw'r 5 prif thema, gan ychwanegu 'Atal a mynd i'r afael â digartrefedd' fel thema ar wahân, i sicrhau ei fod yn cael ei dargedu fel blaenoriaeth. Mae cynnig hefyd i uno'r themâu presennol 'Cartrefi a chymorth i bobl ddi-amddiffyn' a 'Hyrwyddo a chefnogi cymunedau' i ffurfio thema 'Cefnogi pobl a chymunedau cynaliadwy'.
- 4.8 Bydd y strategaeth ddiwygiedig yn cyfeirio at, ac yn ceisio mynd i'r afael ag ystod o faterion ychwanegol er mwyn ymateb i newidiadau agenda tai ers 2015, yn cynnwys:
- Integreiddio blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol cyfredol yn llawn (wedi'i fabwysiadu ar ôl y Strategaeth Dai);
 - Prosiect llety i'r digartref Y Cyfrif Refeniw Tai
 - Dewisiadau tai pobl ifanc;
 - Materion iechyd meddwl a materion dementia;
 - Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019);
 - Newid hinsawdd ac ecolegol;
 - Newidiadau i'r Safon Ansawdd Tai Cymru ar gyfer eiddo Cyngor ac eiddo Landlord Cymdeithasol Cofrestredig - gyda rhagor o ffocws ar ddatgarboneiddio yn 2021.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

4.9 Mae trafodaethau gyda staff allweddol, yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth o adrannau ar draws Cyngor Sir Ddinbych ac ymgysylltu â phartneriaid allweddol, yn cynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar waith ar hyn o bryd, gyda'r nod o lywio'r Strategaeth Dai a Digartrefedd newydd. Bydd argymhellion o'r Pwyllgor Craffu hwn yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Strategol Tai a Digartrefedd. Fe geisir cymeradwyaeth gan y Cyngor ar gyfer fersiwn ddrafft derfynol Strategaeth Dai a Digartrefedd yn nes ymlaen eleni.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae themâu'r Strategaeth Dai a fanylir yn 4.1 yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol canlynol – tai, yr amgylchedd, pobl ifanc a chymunedau gwynnwch.

6. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

6.1. Bydd Asesiad o'r Effaith ar Les yn cael ei gynnal ar ôl i'r Strategaeth Dai a Digartrefedd gael ei llunio'n llawn.

7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

7.1 Mae'r Strategaeth Dai a Digartrefedd yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd ac mae amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgynghori wedi cael eu trefnu ac yn cael eu trefnu:

- Tîm Gweithredol Corfforaethol – 24 Mehefin 2019
- Bwrdd Rhaglen Pobl Ifanc a Thai – 27 Tachwedd 2020
- Gweithdy i Gynghorwyr – 15 Ionawr 2020 (mae prif ganlyniadau wedi'u manylu yn **Atodiad C**);
- Rhaglen o ymgynghori ar draws pwyllgorau Cyngor Sir Ddinbych – Pwyllgor Craffu hwn, Cabinet, Briffio'r Cabinet a'r Cyngor Llawn;
- Trafodaethau gyda staff allweddol o adrannau ar draws Cyngor Sir Ddinbych;
- Adborth gan bartneriaid allweddol yn cynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

8.1 Bydd angen asesu goblygiadau cost llawn cynigion penodol sy'n cael eu datblygu fel rhan o'r Strategaeth er mwyn sicrhau eu bod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy.

9. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

9.1. Mae sicrhau fod pobl yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sydd yn bodloni eu hanghenion yn brif flaenoriaeth i'r Cyngor. Mae amrywiaeth o ddulliau yn eu lle i fonitro cynnydd, yn cynnwys yr adroddiad hwn.

10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

10.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000, Deddf Tai 1985 (A8), Deddf Tai 2004 (A8), Deddf Llywodraeth Leol 2003 (A87), Deddf Tai (Cymru) 2014

10.2 Mae Adran 7.4 Cyfansoddiad y Cyngor yn manylu ar bwerau'r Pwyllgor Craffu o ran datblygu ac adolygu polisi.